

STRAEON AM NEWID YN YR HINSAWDD

Cyflwyniad

Nid yw newid yn yr hinsawdd yn argyfwng sydd ar ddod – mae'n rym dinistriol sy'n effeithio ar filiynau o fywydau ar hyn o bryd. A'r bobl sydd wedi cyfrannu leiaf at yr argyfwng hinsawdd sy'n dioddef fwyaf.

Mae bywyd eisoes yn frwydr i gymunedau tlawd. Ond mae'r argyfwng hinsawdd yn gwneud pethau gymaint yn anoddach. Mae sychder a llifogydd yn digwydd yn fwyfwy aml, ac mae'r tymhorau tyfu cynydau yn fwy a mwy anrhagweladwy. Mae'n golygu bod miliynau o bobl yn newynu.

Mae pobl sy'n byw mewn tlodi yn fwy agored i effeithiau newid yn yr hinsawdd am lawer o resymau. Maent yn aml yn cael eu gorfodi i fyw mewn cartrefi dros dro, a hynny ar dir sy'n dueddol o ddiodeff o lifogydd, stormydd a thirlithriadau. Mae gwneud bywoliaeth yn anodd – ychydig iawn, iawn o bobl sydd ag yswiriant ar gyfer eu cartrefi neu eu busnesau, neu gynilion i droi atynt mewn argyfwng. A phan fydd trychinebau'n taro, mae deiet, glanweithdra a gofal iechyd gwael yn golygu bod afiechydon yn lledaenu'n gyflym.

Bydd y syniadau am weithgareddau¹ a'r straeon bywyd go iawn hyn o Falawi yn cefnogi dysgwyr rhwng 9 a 14 oed i ddysgu a meddwl am effaith newid yn yr hinsawdd ar bobl.

- Defnyddiwch linell gytundeb i ystyried a thrafod syniadau a barn ar newid yn yr hinsawdd (t.2)
- Defnyddiwch straeon a gweithgareddau chwarae rôl i gael gwybod rhagor am sut y mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar rai cymunedau ym Malawi (t.3)
- Chwaraewch gêm fregusrwydd i ddeall nad yw newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar bawb yn gyfartal ac mai cymunedau tlawd sy'n teimlo'r effaith fwyaf (t.4)
- Gwnewch fand arddwrn i amlygu undod â'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan yr argyfwng hinsawdd (t.5)

Cynnwys

- Cyflwyniad t. 1
- Syniadau am weithgareddau
 - Ble rydych chi'n sefyll: t. 2
 - Straeon am newid yn yr hinsawdd t. 3
 - Gêm bregusrwydd newid yn yr hinsawdd t. 4
 - Gwnewch eich band arddwrn argyfwng hinsawdd eich hun t. 5
- Cael gwybod rhagor t. 6
- Tafleenni gweithgareddau ac adnoddau t. 7-11



Gwybodaeth am y llun: Croesi tir dan ddŵr yn ne Malawi yn dilyn Seiclun Idai. Achosodd llifogydd eang i gartrefi llawer o bobl gwmpo, a dinistriwyd caeau o gnydau.
Credyd: Philip Hatcher-Moore/Oxfam


¹ Mae'r gweithgareddau hyn wedi'u haddasu o adnoddau Her Hinsawdd Oxfam ar gyfer yr oedrannau 7-11 ac 11-14. Gweler Rhagor o wybodaeth i gael manylion pellach am yr adnoddau amserol iawn hyn a ddefnyddir yn helaeth.

Syniadau am weithgareddau

1. Ble yr ydych chi'n sefyll? (15 mun)

Nod: Annog dysgwyr i ystyried a thrafod eu barn am newid yn yr hinsawdd – ar bwy y mae'n effeithio, pwy sy'n gyfrifol a phwy a ddylai weithredu.

- Y ffordd orau o gyflawni'r gweithgaredd hwn yw mewn ardal fawr agored. Efallai yr hoffech ddefnyddio'r maes chwarae neu neuadd chwaraeon. Llinell ddychmygol o un ochr i ardal ddysgu i'r llall yw llinell gytundeb, y gofynnir i'r dysgwyr sefyll arni yn seiliedig ar y graddau y maent yn cytuno neu'n anghytuno â datganiad penodol.
- Gofynnwch i'r dysgwyr ddychmygu llinell o un ochr i'r ardal ddysgu i'r llall. Esboniwch fod sefyll ar un pen i'r llinell hon yn golygu cytuno'n gryf â datganiad, a bod sefyll ar y pen arall yn golygu anghytuno'n gryf â'r datganiad. Mae'r gofod rhyngddynt wedi'i raddio rhwng y safbwyntiau hyn. Esboniwch y bydd barn pawb yn cwmpo yn rhywle ar hyd y llinell, ac nad oes yna unrhyw atebion 'cywir' neu 'anghywir' o reidrwydd. Efallai yr hoffech labelu un ochr i'r gofod yn 'cytuno'n gryf' a'r llall yn 'anghytuno'n gryf'.
- Efallai yr hoffech gyflwyno datganiad er mwyn ymarfer, er enghraifft 'Mae pêl-droed yn wych', i gynhesu'r dysgwyr ac iddynt ymgyswddo â'r cysyniad o ddefnyddio llinell gytundeb.



- Darllenwch bob un o'r datganiadau isod, gan ganiatáu i'r dysgwyr symud i'w lle ar hyd y llinell gytundeb bob tro:
 - Mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar bobl ar hyn o bryd.
 - Mae pawb yr un mor gyfrifol am yr argyfwng hinsawdd.
 - Bydd newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar bawb yn yr un modd.
 - Bydd yr argyfwng hinsawdd yn effeithio ar bobl mewn gwledydd eraill yn unig.
 - Gall pawb gymryd camau yn erbyn newid yn yr hinsawdd.
 - Dylem wneud mwy yn yr ysgol i ddysgu am newid yn yr hinsawdd a gweithredu yn ei erbyn.
- Anogwch ddysgwyr unigol mewn safleoedd gwahanol i ddweud ychydig eiriau i egluro pam y maent wedi sefyll yn y safle hwnnw. Ceisiwch gael y dysgwyr i ymhelaethu ar yr egwyddorion canlynol:
 - Tegwch – mae effeithiau newid yn yr hinsawdd yn cael eu teimlo'n fwy gan y bobl dlotaf ac, yn eironig, y bobl leiaf cyfrifol.
 - Deall y mater – mae newid yn yr hinsawdd yn cael effaith ar fywydau miliynau o bobl ar hyn o bryd.
 - Pŵer – gall pawb weithredu yn eu bywydau eu hunain i leihau eu hól troed carbon, ond mae angen i lywodraethau a busnesau, yn benodol, wneud mwy i newid y systemau sy'n parhau i achosi llawer o allyriadau carbon.

2. Straeon am newid yn yr hinsawdd (30 munud)

Nod: Bydd y dysgwyr yn defnyddio astudiaethau achos i ymchwilio i sut y mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar rai cymunedau ledled y byd. Yna byddant yn defnyddio chwarae rôl i amlygu empathi â rhai pobl y mae eu bywoliaeth yn cael ei bygwth gan yr argyfwng hinsawdd.

- Rhewch gopi o un o'r Straeon am newid yn yr hinsawdd i bob dysgwr (Taflenni adnoddau 2-3). Esboniwch fod yr astudiaethau achos hyn yn disgrifio pobl go iawn ym Malawi y mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio arnynt. Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen eu stori a meddwl sut y byddent yn cyflwyno'r unigolyn hwn i eraill yn y dosbarth. Efallai yr hoffech hefyd ddsbarthu copiâu o Ffeil ffeithiau Malawi (Taflen adnoddau 1).
- Fel dosbarth cyfan, trafodwch gwestiynau posibl y gallech eu gofyn i'r bobl sy'n cael sylw yn y straeon (er enghraifft, cwestiynau sy'n dechrau gyda Pam, Beth, Ble, Pryd a Sut).
- Ymhlith y cwestiynau posibl y mae:
 - Ble yr ydych yn byw? Beth y gallwch ei ddweud wrthyf am eich gwlad?
 - Beth yr ydych yn ei wneud?
 - Sut y mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar eich bywyd, eich teulu a'ch cymuned? Sut y mae hyn yn gwneud i chi deimlo?
 - Beth yr ydych yn meddwl y mae angen ei wneud i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd?
 - Pwy yr ydych yn meddwl a ddylai weithredu?
- Mewn paru gyda rhywun sydd â stori wahanol, gofynnwch i'r dysgwyr gymryd eu tro naill ai i fod yn gyfwelydd neu i eistedd yn y gadair goch fel yr unigolyn yn eu stori.
- Lle na ddarperir atebion i gwestiynau'r cyfwelydd yn y Straeon am newid yn yr hinsawdd, gall y dysgwyr actio'r rôl, gan ddefnyddio eu syniadau eu hunain yn seiliedig ar agweddau eraill ar yr hyn y maent yn ei wybod neu wedi'i ddarllen. Pwysleiswch fod hwn yn weithgaredd sy'n ymwneud ag amlygu empathi a dychmygu yn hytrach na chanfod ffeithiau gwyddonol.
- Os oes gennych ddigon o amser, gallai paru o ddysgwyr yn eu rôl gyflwyno ei gilydd i bâr arall. Fel arall, gallai paru o ddysgwyr actio'u cyfweiliadau i eraill yn y dosbarth.
- Gorffennwch trwy drafod yr hyn a ddysgodd y dysgwyr o'r gweithgaredd.

Syniadau pellach

- Gallai'r dysgwyr greu stori fer, erthygl papur newydd, cofnod mewn dyddiadur, sribed cartŵn neu gerdd i ddisgrifio teimladau a barn unigolyn y mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio arno. Gallai'r dysgwyr wneud bwrdd arddangos ar gyfer eu hysgrifennu creadigol a/neu gyflwyno gwasanaeth i rannu eu gwaith ag eraill.
- Gofynnwch i'r dysgwyr restru cwestiynau eraill yr hoffent eu gofyn i'r bobl yn y Straeon am newid yn yr hinsawdd. Er na fyddant yn gallu darganfod yr atebion, mae'r broses holi ei hun yn datblygu empathi. Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am yr hyn sy'n gwneud cwestiwn da. Anogwch nhw i arbrofi gyda mathau gwahanol o gwestiynau, er enghraifft agored neu gaeedig, ac yn hawdd neu'n anodd eu hateb. Trafodwch fanteision ac anfanteision mathau gwahanol o gwestiynau.

- Gallai'r dysgwyr ymchwilio i sut y mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar gymunedau yn y Deyrnas Unedig. Trafodwch yr hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol rhwng yr effeithiau hyn a'r rhai a ddisgrifir yn y Straeon am newid yn yr hinsawdd.
- Mae stori Patouma yn enghraifft o sut y mae pobl yn addasu i newid yn yr hinsawdd – newid y ffordd y maent yn gwneud pethau i atal neu leihau'r difrod sy'n cael ei achosi. Mae llawer o bobl ledled y byd yn gwneud popeth yn eu gallu i atal newid yn yr hinsawdd rhag dinistrio eu bywydau. Cefnogwch y dysgwyr i ymchwilio i enghreifftiau o addasu i newid yn yr hinsawdd yn y Deyrnas Unedig, er enghraifft trwy newid dulliau ffermio neu reoli peryglon llifogydd sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd.

3. Gêm bregusrwydd newid yn yr hinsawdd (40 munud)

Nod: Deall nad yw newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar bawb yn yr un modd, ac yn aml bydd yr argyfwng hinsawdd yn effeithio fwyaf ar y cymunedau tlotaf er gwaethaf y ffaith mai nhw sy'n cyfrannu leiaf ato.

- Esboniwch fod y dysgwyr yn mynd i chwarae gêm i archwilio pa ffactorau sy'n gwneud rhai pobl yn fwy agored i niwed nag eraill. Trafodwch â'r dysgwyr yr hyn y mae bod yn agored i niwed yn ei olygu:
 - Efallai y bydd rhywbeth (negyddol fel arfer) yn digwydd i chi.
 - Rydych yn colli rhywbeth.
 - Rydych mewn perygl.
- Trefnwch y dysgwyr yn barau neu'n grwpiau o dri, a gofynnwch iddynt sefyll mewn rhes yn un pen i'r ystafell, yn eu grwpiau. Dylai pob pâr neu grŵp gael un o'r Cardiau rôl – Gêm bregusrwydd newid yn yr hinsawdd (Taflen weithgaredd 1).
- Esboniwch fod y cardiau rôl yn cynrychioli pobl ddychmygol sy'n byw ym Malawi (a bod un unigolyn yn gweithio gerllaw yn Nhanzania). Gofynnwch i'r dysgwyr dreulio ychydig funudau yn dychmygu bywyd bob dydd yr unigolyn y maent yn chwarae ei rôl ac i feddwl am enw i'w cymeriad.
- Darllenwch y rhestr o ddatganiadau isod, a gofynnwch i'r dysgwyr hynny y gall eu cymeriad gytuno â'r datganiad gymryd cam ymlaen (rhowch amser iddynt drafod y datganiad yn eu grwpiau gyntaf, a phenderfynu a fyddent yn cytuno ag ef). Anogwch y grwpiau hynny sy'n ansicr sut i ateb i ofyn i chi a/neu eraill am gyngor.
- Yn y pen draw, bydd y dysgwyr wedi'u gwasgaru ar draws yr ystafell yn ôl faint o gamau y maent wedi'u cymryd.

Datganiadau o fregusrwydd

1. Rwyt ti'n cael neu wedi cael addysg ysgol gynradd.
2. Rwyt ti'n cael neu wedi cael addysg ysgol uwchradd.
3. Gelli di fforddio bodloni dy anghenion sylfaenol.
4. Dwyt ti byth yn brin o fwyd.
5. Dwyt ti ddim yn dibynnu ar dywydd lleol da i dyfu cnydau i wneud bywoliaeth neu i gael bwyd i'w fwyta.
6. Gelli di fforddio gweld meddyg a phrynu meddyginiaethau pan fydd gennynt broblemau iechyd.
7. Mae gennynt y grym i ddylanwadu ar bobl yn dy gymuned.
8. Os bydd argyfwng, bydd y gwasanaethau brys yn dod i dy helpu di a'th gymuned.

9. Mae gen ti bobl sy'n gofalu amdanat ac yn dy warchod.
 10. Mae gen ti arian wedi'i gynilo ar gyfer amseroedd anodd.
 11. Does dim rhaid i ti wneud pethau peryglus er mwyn goroesi.
 12. Gelli di fforddio lle i fyw yn ddo.
 13. Rwyf ti'n byw mewn tŷ cadarn sy'n ddiogel rhag tywydd gwael.
 14. Os oes gen ti le i fyw, mae wedi'i yswirio.
 15. Mae gen ti sgiliau darllen ac ysgrifennu digon da i gael swydd sy'n darparu cyflog rheolaidd.
 16. Os byddi di'n colli dy ffordd o wneud incwm, mae'n debygol y gelli di ddod o hyd i un arall.
- Ar ôl i chi ddarllen yr holl ddatganiadau yn uchel, gofynnwch i'r dysgwyr aros lle y maent a chyflwyno eu cymeriad i'r grwpiau eraill. Anogwch y dysgwyr i roi rhesymau dros eu penderfyniadau ynghylch faint o gamau a gymerwyd ganddynt.
 - Gofynnwch i'r dysgwyr a ydynt yn meddwl bod pob cymeriad wedi'i osod yn gywir mewn perthynas ag eraill, er enghraifft: A ydych yn meddwl y dylai'r dyn priod fod ymhellach ymlaen na'r ferch 12 oed? Anogwch drafodaethau lle mae yna anghytuno.
 - Gofynnwch i'r dysgwyr nodi pa ffactorau sy'n gwneud rhai pobl yn fwy bregus nag eraill. Pa mor fregus, yn eu barn nhw, fyddai eu cymeriad i effeithiau newid yn yr hinsawdd? Rhannwch y ffeithiau canlynol i helpu'r dysgwyr i nodi ffyrdd y gellid effeithio ar eu cymeriad.
 - Mae newid yn yr hinsawdd yn achosi glawio anrhagweladwy sy'n effeithio ar gnydau, y broses o gynhyrchu bwyd a ffynonellau dŵr.
 - Mae newid yn yr hinsawdd yn gysylltiedig â mwy o debygolrwydd o ddigwyddiadau tywydd eithafol.
 - Gall digwyddiadau tywydd eithafol, er enghraifft llifogydd, ddinistrio neu ddifrodi tai, cnydau a ffyrdd.
 - Gofynnwch i'r dysgwyr geisio eu rhoi eu hunain mewn trefn ar draws yr ystafell yn ôl pa mor fregus y maent yn meddwl y byddai eu cymeriad yn wyneb effeithiau newid yn yr hinsawdd (un ochr i'r ystafell – bregus iawn, ochr arall yr ystafell – ddim yn fregus iawn). Yna gofynnwch i'r dysgwyr eu rhoi eu hunain mewn trefn ar draws yr ystafell yn ôl yr hyn y maent yn ei feddwl a fyddai maint ôl troed carbon eu cymeriad (un ochr i'r ystafell – ôl troed carbon bach, ochr arall yr ystafell – ôl troed carbon mawr).
 - Esboniwch fod newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar bawb, ond y bydd llawer o bobl mewn gwledydd tlotach yn cael eu taro'n galetach na llawer o bobl mewn gwledydd cyfoethocach, ac mai'r bobl sy'n byw yn rhanbarthau mwyaf ansicr y byd o ran bwyd fydd yn cael eu taro galetaf. Yn eironig (ac yn annheg), y bobl sy'n cyfrannu leiaf at newid yn yr hinsawdd sy'n dioddef fwyaf.

4. Gwnewch eich band arddwrn argyfwng hinsawdd eich hun (30 munud)

- Gall pob un ohonom chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o achub ein planed a'i phobl – ond dim ond os cymerwn gamau brys 'nawr. Mae gennym y grym i drwsio hyn gyda'n gilydd os byddwn yn gweithredu yn ein bywydau ein hunain, ac yn gwthio llywodraethau a chorfforaethau am atebion sy'n ein galluogi i fynd i'r afael ar frys â'r argyfwng hinsawdd, unwaith ac am byth.
- Daeth Jessy, un o'r bobl sy'n rhan o'r Straeon am newid yn yr hinsawdd, i ymweld â'r Deyrnas Unedig ym mis Medi 2019 i helpu i feithrin ymwybyddiaeth o'r ffordd y mae newid yn yr hinsawdd yn

effeithio ar fywydau pobl 'nawr, a pham y mae angen gweithredu ar frys. Cymerodd Isaac, y Prif Fachgen yn ysgol Jessy, a Mervyn, eu Pennaeth, ran yn yr ymweliad hefyd.

- Aeth Jessy ac Isaac i gwrdd â phobl ifanc eraill yn y Deyrnas Unedig, i rannu profiadau a syniadau am effaith newid yn yr hinsawdd. Aethant hefyd i rali hinsawdd yn Llundain. Mae clip fideo byr am eu hymweliad ar gael yma: www.youtube.com/watch?v=EJH054VFIQ4
- Dangoswch y clip fideo i'r dysgwyr. Ymhlith y cwestiynau trafod posibl y mae:
 - Sut y mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar fywydau Jessy ac Isaac?
 - Beth y mae angen ei wneud yn eu barn nhw?
 - Sut y maent yn meithrin ymwybyddiaeth o'r mater hwn?
 - Sut y gallech feithrin ymwybyddiaeth o'r ffordd y mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar fywydau pobl 'nawr?
- Gallai'r dysgwyr wneud bandiau arddwrn i amlygu undod â'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan yr argyfwng hinsawdd. Mae bandiau arddwrn yn ffordd wych o ddechrau sgwrs, yn enwedig os ydynt yn lliwgar ac yn unigryw ac yn arddangos neges yr ydych yn teimlo'n angerddol amdani. A gallwch ddefnyddio hen ddeunydd i wneud eich band arddwrn eich hun yn gyflym ac yn hawdd.
- Darperir cyfarwyddiadau yn Make your own climate crisis wristband (Taflen adnoddau 4) ac mae hefyd ar gael ar-lein: <https://oxfamapps.org/blog/make-your-own-climate-crisis-wristband/>

Syniad pellach

- Trafodwch ffyrdd eraill y gallai'r dysgwyr feithrin ymwybyddiaeth o'r mater hwn. Dyma rai enghreifftiau: cyflwyno gwasanaeth, addysgu dosbarthiadau eraill, dylunio ac arddangos posteri o amgylch yr ysgol, ysgrifennu postiad blog neu greu fideo. Gallai'r dysgwyr weithio mewn grwpiau i ddewis, cynllunio a chynnal gweithgaredd meithrin ymwybyddiaeth.

Rhagor o wybodaeth

- Mae adnoddau Her Hinsawdd Oxfam ar gyfer yr oedrannau 7-11 ac 11-14 yn defnyddio offer a gweithgareddau diddorol i archwilio achosion newid yn yr hinsawdd a'r effaith ar bobl, ac i ystyried pa gamau y gellir eu cymryd mewn ymateb. Mae'r gweithgareddau'n cysylltu â sawl maes cwricwlwm, gan gynnwys Saesneg, Daearyddiaeth a Gwyddoniaeth.
www.oxfam.org.uk/education/resources/climate-challenge-7-11
www.oxfam.org.uk/education/resources/climate-challenge-11-14
- Profwch wybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr ynghylch newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau:
www.oxfam.org.uk/education/resources/climate-change-quiz
- Gwybodaeth bellach am waith Oxfam ar newid yn yr hinsawdd:
www.oxfam.org.uk/what-we-do/issues-we-work-on/climate-change
- Rhai gwefannau defnyddiol er mwyn darganfod rhagor am newid yn yr hinsawdd a'r wyddoniaeth y tu ôl iddo:
www.metoffice.gov.uk/climate-guide
<https://climate.nasa.gov/>
www.carbonbrief.org/

- Y Panel Rhynglywodraethol ar Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) – adroddiad diweddaraf yr IPCC yw'r ffynhonnell fyd-eang orau ar gyfer yr ymchwil ddiweddaraf ar newid yn yr hinsawdd:
www.ipcc.ch/report
- Mynnwch wybod rhagor am gamau sy'n cael eu cymryd yn y Deyrnas Unedig i ymgyrchu yn erbyn newid yn yr hinsawdd, a sut y gall unigolion a chymunedau gymryd rhan:
The Climate Coalition: www.theclimatecoalition.org
Atal Anhrefn Hinsawdd yr Alban: www.stopclimatechaos.scot
Atal Anhrefn Hinsawdd Cymru: <http://stopclimatechaos.cymru/>

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB

Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.

Ffeil ffeithiau Malawi

Taflen adnoddau 1

Prifddinas: Lilongwe

Poblogaeth: 18 miliwn

Daearyddiaeth: Gwlad dirgaeedig sy'n ffinio â Zambia, Tanzania a Mozambique. Mae traean o arwynebedd Malawi wedi'i gorchuddio â Llyn Malawi.

Hinsawdd: Trofannol yn gyffredinol. Mae yna dymor glawog rhwng mis Tachwedd a mis Ebrill, ond dim neu fawr ddim glaw ledled llawer o'r wlad rhwng mis Mai a mis Hydref.

Disgwyliad oes cyfartalog: 63 blynedd

Incwm cyfartalog y pen: \$UD360

allyriadau CO₂ y pen: 0.1tCO₂ (8.5 tCO₂ yn y Deyrnas Unedig)



Ffynonellau data:

Data Agored Banc y Byd: data.worldbank.org

Yr Atlas Carbon Byd-eang: globalcarbonatlas.org

Ffynhonnell y ddelwedd: Alvaro1984 18, commons.wikimedia.org/wiki/File:Location_Malawi_AU_Africa.svg

Mae Malawi yn wlad dirgaeedig yn ne-ddwyrain Affrica, sy'n ffinio â Zambia, Tanzania a Mozambique. Mae Llyn Malawi, sef un o lynnoedd mwyaf y byd, yn ymestyn dros draean o arwynebedd Malawi. Gelwir y wlad yn 'Galon gynnes Affrica' oherwydd cyfeillgarwch ei phobl. Mae Malawi yn gartref i anifeiliaid fel eliffantod, hipopotamysau, llewpardiaid a mwnciod, yn ogystal â llawer o adar gwahanol. Mae llawer o dwristiaid yn ymweld â'r wlad bob blwyddyn.

Mae Malawi yn un o'r gwledydd tlotaf yn y byd. Mae'r rhan fwyaf o'r bobl yn byw mewn ardaloedd gwledig, ac yn dibynnu ar ffermio i dyfu bwyd i fwydo eu teuluoedd ac i'w werthu i wneud bywoliaeth. Indrawn yw'r prif gnwd, ac i lawer o bobl mae'n rhan fawr o'u deiet. Mae'r ddibyniaeth hon ar ffermio a'r lefelau uchel o dlodi ym Malawi yn gwneud llawer o bobl yn fregus iawn yn wyneb effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae patrymau glawiad anghyson a chynnydd yn amllder a dwyster digwyddiadau tywydd eithafol, er enghraifft sychder a llifogydd, yn effeithio ar faint o fwyd y gall y bobl ei dyfu a'i fwyta.

Yn glocwedd o'r gornel chwith uchaf:

Gwybodaeth am y llun: Gan fod dŵr yn brin ym Mulanje, mae merch yn cario cynwysyddion i dyllau turio i nôl dŵr i'w theulu.


Cydnabyddiaeth: Eldson Chagara/Oxfam

Gwybodaeth am y llun: Lilongwe, prifddinas Malawi.

Cydnabyddiaeth: Samymag, commons.wikimedia.org/wiki/File:Lilongwe_city_from_the_sky.jpg

Gwybodaeth am y llun: Hipopotamysau ym Mharc Cenedlaethol Liwonde.

Cydnabyddiaeth: Liz Newbon
Mynyddoedd a phlanhigfeydd te yn Ardal Mulanje.
Cydnabyddiaeth: Liz Newbon



Straeon newid yn yr hinsawdd

Taflen adnoddau 2

Lazaro

Mae Lazaro a'i deulu ymhlith y miliynau o bobl ym Malawi, Mozambique a Zimbabwe y dinistriwyd eu bywydau gan Seiclón Idai ym mis Mawrth 2019. Mae gwyntoedd cryfion, ymchwydd storm, glawogydd trwm a llifogydd eang wedi cael effeithiau dinistriol ar fywydau miliynau o bobl. Dinistriwyd cartrefi, ffyrdd, pontydd, ysgolion a chyfleusterau iechyd, a chafodd tir amaethyddol ei ddileu'n llwyr mewn rhai ardaloedd.

Yn y llun hwn, mae Lazaro yn adeiladu lloches dros dro yn dilyn y llifogydd a ddinistriodd ei dŷ. Golchwyd geifr a bwyd ei deulu i ffwrdd. Dywed Lazaro, "Roedd y rhain yn rhoi bywoliaeth a bri i mi. Cafodd yr holl fwyd a oedd gennym ei ddinistrio gan y dŵr a ddaeth o'r afon i lawr yn y fan acw. Y cyfan sydd ar ôl gennym yw'r polion a'r plastig carpiog."

Nid yw'n bosibl dweud bod newid yn yr hinsawdd yn achosi unrhyw storm bendorol. Fodd bynnag, mae'r wyddoniaeth hinsawdd orau sydd ar gael yn dangos bod newid yn yr hinsawdd yn cynyddu dwyster ac amllder trychinebau sy'n gysylltiedig â'r tywydd, er enghraifft teiffwnau a sychder.



Cydnabyddiaeth: Daud Kayisi/Oxfam

Vanessa

Daeth Seiclón Idai i'r lan noson yr 14-15 Mawrth 2019 – achosodd y system dywydd hon ddifrod helaeth ym Mozambique, Malawi a Zimbabwe. Mae gwyntoedd cryfion, ymchwydd storm, glawogydd trwm a llifogydd eang wedi cael effeithiau dinistriol ar fywydau miliynau o bobl. Dinistriwyd cartrefi, ffyrdd, pontydd, ysgolion a chyfleusterau iechyd, a chafodd tir amaethyddol ei ddileu'n llwyr mewn rhai ardaloedd.

Mae Vanessa yn gweithio i Oxfam ym Malawi. Yn y llun hwn, mae hi'n cofrestru pobl ar gyfer dosbarthiad yng ngwersyll Bangula yn ne'r wlad, lle mae llifogydd wedi gorfodi llawer o bobl i adael eu cartrefi.

Mae Oxfam wedi dosbarthu bwcedi, sebon, ac eitemau glanweithiol eraill i helpu.

Nid yw'n bosibl dweud bod newid yn yr hinsawdd yn achosi unrhyw storm benodol. Fodd bynnag, mae'r wyddoniaeth hinsawdd orau sydd ar gael yn dangos bod newid yn yr hinsawdd yn cynyddu

dwyster ac amllder trychinebau sy'n gysylltiedig â'r tywydd, er enghraifft teiffwnau a sychder.



Cydnabyddiaeth: Philip Hatcher-Moore/Oxfam

Straeon am Newid yn yr hinsawdd

Taflen adnoddau 3

Jessy

Mae Jessy yn falch o fod yn Brif Ferch mewn ysgol uwchradd yn Kasungu, Malawi. Mae ei rhieni yn ffermwyr ac yn gweld effeithiau newid yn yr hinsawdd 'nawr. Mae Jessy yn eu helpu ar y fferm. Maent yn tyfu indrawn, cnau daear a ffa soia.

“Mae fy rhieni yn dibynnu ar ffermio,” meddai Jessy.

Mae'r tywydd wedi newid ar y fferm ers pan oedd Jessy yn fach. “Mae wedi newid yn bennaf o ran y patrymau glaw ac o ran y tymhorau. Y tro diwethaf roeddem yn disgwyl glaw ddiwedd mis Rhagfyr, ond erbyn hyn rydym yn disgwyl glaw ym mis Ionawr ... Mae hyn wedi effeithio ar y gwaith o gynhyrchu cynydau. Mae fy rhieni yn cynhyrchu ychydig iawn o gnydau o gymharu â'r blynyddoedd cynt.”



Cydnabyddiaeth: Watipaso Kailwo/Oxfam

Mae teulu Jessy yn dibynnu ar y fferm am eu bwyd eu hunain. Hoff fwyd Jessy yw reis gyda chyw iâr, Nsima a sglodion. Math o uwd stiff wedi'i wneud o indrawn yw Nsima (sy'n cael ei ynganu fel 'seema').

Mae Jessy am fod yn nyrs neu'n feddyg. “Ym Malawi ... mae rhai pobl yn mynd i'r ysbyty ond dydyn nhw ddim yn cael triniaeth oherwydd prinder meddygon. Felly, penderfynais fy mod i am fod yn feddyg er mwyn i mi efallai allu lleihau'r broblem honno.”

Patouma

Mae Patouma yn ffermwr yn ne Malawi. Tan yn ddiweddar, mae Patouma wedi dibynnu ar dyfu indrawn ar lain o dir un erw i fwydo ei theulu. Fodd bynnag, mae newid yn yr hinsawdd bellach yn ei gwneud hi'n anodd iawn i Patouma a llawer o bobl eraill ym Malawi ddarparu ar gyfer eu teuluoedd.

“Mewn blwyddyn dda, pan fydd y glawogydd yn dda, gallaf weithiau gynaeafu hyd at 15 bag o indrawn. Y llynedd, plannais fy nghnydau yn ôl yr arfer, ond oherwydd y newid syfrdanol yn yr hinsawdd ac ychydig iawn o law, dim ond un bag y llwyddais i ei gynaeafu. Dim ond mis y parhaodd hwnnw. Doedd fy nheulu a minnau erioed wedi bod mor llwglyd ag yr oeddem bryd hynny.”

Mae Oxfam wedi bod yn gweithio gyda sefydliadau partner ym Malawi i gefnogi Patouma a ffermwyr eraill fel hi i dyfu llysiau mewn gerddi cegin bach. Gallant ddefnyddio rhai o'r llysiau i fwydo eu teuluoedd ac ennill incwm trwy werthu'r gweddill.

Eglura Patouma: “Nawr, trwy ffermio llysiau, rwy'n gallu gwerthu'r llysiau a defnyddio'r elw i brynu rhywfaint o fwyd i fwydo fy mhlant. Rwy'n gallu bwyta bob dydd, a doeddwn i ddim yn gallu gwneud hynny o'r blaen. Rydw i hefyd yn gallu prynu sebon a gall fy mhlant wisgo dillad glân. Gallaf hyd yn oed brynu gwerslyfrau ysgol a phensiliau. Mae'r math hwn o ffermio wedi helpu fy nheulu yn fawr.”



Cydnabyddiaeth: Eldson Chagara/Oxfam

Gêm bregusrwydd newid yn yr hinsawdd – Cardiau rôl

Taflen weithgaredd 1

<p>Rwyt ti'n ferch 12 oed, o deulu sy'n ffermio ym Malawi, sydd wedi cael dy dynnu o'r ysgol am fod ar dy fam angen cymorth i gasglu dŵr a choed. Mae'r daith gerdded i gasglu'r rhain yn mynd yn hirach bob mis.</p>	<p>Rwyt ti'n ffermwr ymgynhaliol benywaidd sy'n tyfu indrawn. Dim ond digon o fwyd i ti a dy deulu ei fwyta y byddi di'n ei dyfu.</p>
<p>Rwyt ti'n ddyn priod, sydd â phedwar o blant, ac yn rhedeg archfarchnad mewn tref fach. Rwyt ti wedi colli braich i haint ond mae gennynt incwm da.</p>	<p>Rwyt ti'n fenyw sydd wedi dy ddadleoli o dy bentref ac rwyt ti'n cuddio mewn coedwig. Rwyt ti'n chwilota am fwyd a dŵr ond yn aml yn mynd heb fwyd, ac mae ofn mawr arnat ti.</p>
<p>Rwyt ti'n swyddog llywodraeth leol sy'n byw yn Lilongwe, prifddinas Malawi. Mae gennynt ti ddylanwad, a gelli di fforddio popeth y mae ei angen arnat ti.</p>	<p>Rwyt ti'n fachgen 16 oed sy'n gweithio mewn mwynglawdd diemwntau yng ngwlad gyfagos Tanzania. Rwyt ti'n cael rhywfaint o fwyd ar gyfer dy waith ond dim arian.</p>
<p>Rwyt ti'n fab yn dy ardegau i brif weithredwr cwmni gweithgynhyrchu mawr. Rwyt ti'n mynd i ysgol breifat ac, ar hyn o bryd, rwyt ti'n gwneud cais i fynd i'r brifysgol.</p>	<p>Rwyt ti'n gweithio i sefydliad hawliau dynol cenedlaethol. Rwyt ti'n gwneud gwaith peryglus ac yn gweithio oriau hir iawn am gyflog bach.</p>
<p>Rwyt ti'n ffermwr y mae ei gnydau wedi methu ddwy flynedd yn olynol. Rwyt ti bellach yn defnyddio dy feic i gasglu siarcol 30 cilomedr i ffwrdd o dy dŷ, i gynnal dy hun a dy deulu.</p>	<p>Rwyt ti'n rheolwr ar blanhigfa rwber. Rwyt ti'n gwneud llawer o arian o'r rwber ac mae gennynt ti gysylltiadau dylanwadol.</p>

Gwnewch eich band arddwrn argyfwng hinsawdd eich hun

Taflen adnoddau 4

Dyma y bydd arnoch ei angen

- Hen grys T neu gynfas wedi'u rhwygo nad oes modd eu defnyddio/gwisgo bellach
- Siswrn
- Pinnau ffelt lliwgar
- Eich neges argyfwng hinsawdd

Yr hyn y dylid ei wneud

Cam 1: Torrwch siâp eich band

Gan ddefnyddio siswrn, torrwch yn ofalus ar draws yr hem ar waelod y crys T neu'r gynfas, ac yna torrwch ar hyd ochr yr hem, gan greu sribed oddeutu 1.5 cm o led. Daliwch ati i dorri ar hyd yr hem nes bod gennych sribed oddeutu 40 cm o hyd.



Cam 2: Penderfynwch ar eich neges

Dim ond ychydig eiriau allweddol neu ymadrodd byr y byddwch yn gallu ei ffitio ar eich band arddwrn, felly bydd angen i chi ddewis rhywbeth cryno sy'n dangos eich bod yn sefyll mewn undod â'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan yr argyfwng hinsawdd.

Gallech gyfeirio ar 'anhrefn hinsawdd', 'cyfiawnder hinsawdd' neu hashnod Oxfam '#WhoTakesTheHeat'

Cam 3: Mynd ati i ysgrifennu

Efallai yr hoffech ysgrifennu eich neges ar ddarn o bapur gyntaf, i wirio y bydd yn ffitio ar y band arddwrn.

Gan dynnu'r band arddwrn yn dynn ag un llaw, ysgrifennwch eich slogan newydd arno â'r llall, a hynny ym mha arddull bynnag yr ydych yn ei ffansio.

Cam 4: Clymwch eich band arddwrn am eich arddwrn a dechreuwch sgwrs!

